AMGYLCH GYMRU

CYLCHLYTHYR ACHUB Y PLANT
ADOLYGIAD O 2011

Achub y Plant
Save the Children

TLODI PLANT: 'GWARTH CENEDLAETHOL'

Mae ffigurau a gyhoeddwyd eleni gan Achub y Plant yn dangos bod gan Gymru'r cofnod gwaethaf yn y DU yn ymwneud â thlodi plant.

Yng Nghymru heddiw, mae 200,000 o bobl ifanc yn byw mewn tlodi a 90,000 mewn tlodi difrifol ac mae'r elusen wedi penderfynu ymrwymo i'r gwaith o sicrhau nad oes unrhyw blentyn yng Nghymru yn cael ei fagu yn oer, yn llwglyd neu o dan anfantais. Defnyddiodd yr elusen ail gynhadledd flynyddol tlodi plant yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd i alw ar Lywodraeth Cymru i gadw ei haddewid i ddileu tlodi plant erbyn 2020.

Ers yr alwad honno, mae prif weinidog Cymru, Carwyn Jones, wedi addo y bydd ei lywodraeth yn cyrraedd y targed 'sy'n haeddiannol heriol' o drechu tlodi plant. Ychwanegodd, "Nid oes blaenoriaeth uwch gen i a Llywodraeth Cymru na sicrhau bod ein plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd."

Gan ymateb i sylwadau Prif Weinidog Cymru, dywedodd James Pritchard, pennaeth Cymru ar gyfer Achub y Plant, "Mae cadw'r ymrwymiad hwn, a wnaed ym 1999, i drechu tlodi plant, sydd yn bla, erbyn 2020, yn hynod bwysig.

"Mae iechyd plant sy'n cael eu magu mewn tlodi yn waeth, nid ydynt yn gwneud mor dda yn yr ysgol ac maent yn fwy tebygol o fagu plant mewn tlodi eu hunain. Mae hyn yn bradychu cenhedlaeth gyfan.

Mae'n warth cenedlaethol bod 200,000 o'n pobl ifanc, dyfodol Cymru, yn tyfu i fyny heb hanfodion plentyndod hapus, iach."

WEDI EU GENI I LYWODRAETHU

Cawsom gymorth gwleidyddion y pedair plaid yng Nghymru i lansio ein hymgyrch *Dim Un Plentyn wedi'i Eni i...* yng Nghymru trwy addo ymrwymo eu hunain i blant ein cenedl yn ystod digwyddiad ym mis Mehefin eleni yn adeilad y Senedd, yng Nghaerdydd. Dysgodd Aelodau'r Cynulliad am waith Achub y Plant yng Nghymru a gwnaethant eu haddewidion personol eu hunain i ymladd dros ddyfodol gwell ar gyfer ein pobl ifanc. Fel rhan o'n hymgyrch rhyngwladol *Dim Un Plentyn wedi'i Eni i Farw*, gofynnwyd i'r gwleidyddion rannu'r hyn yr oeddent 'Wedi eu Geni i'w Wneud'. Mae'r ymgyrch yn seiliedig ar yr egwyddor na ddylai unrhyw blentyn gael ei eni heb gyfle. Mae'n dadlau bod gan bob plentyn hawl i gartref cynnes, y bwyd iawn a'r gobaith o addysg dda. Dyna pam y mae Achub y Plant yn ymgyrchu i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mynychodd dros 20 o ACau gan ddweud wrthym beth yr oeddent wedi'u geni i'w wneud, yn cynnwys Wedi ei Eni i Ymgyrchu, Wedi ei Eni i Herio ac Wedi ei Eni i Hyrwyddo Plant.

Julie Morgan AC

Y LLWYBR HIR A THROELLOG

Cynhaliodd prosiect *Teithio Ymlaen* Achub y Plant fforwm ieuenctid cenedlaethol cyntaf Sipsiwn a Theithwyr ym mis Tachwedd gan ddod â phobl ifanc o bob rhan o Gymru ynghyd.
Mae'r fforwm yn rhoi cyfle i Sipsiwn a Theithwyr ifanc siarad allan am y tro cyntaf am faterion sy'n effeithio arnynt i gyd ar lefel genedlaethol.
www.travellingahead.org.uk

I FYNY BO'R NOD

Mynychodd dros 100 o blant a gwneuthurwyr penderfyniadau ddigwyddiad *Anelu'n Uchel* ym mis Mawrth pan gyflwynodd Llysgenhadon Achub y Plant hyfforddiant hawliau plant a materion tlodi plant.
Helpodd yr ieuenctid hefyd i greu llinell liwgar o faneri yn cynnwys eu meddyliau am dlodi plant a arddangoswyd yn ddiweddarach yng ngŵyl y Gelli.

BETH AM DDOD YNGHYD

Helpodd Gwenda Thomas, y Gweinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, i lansio poster Safonau Cyfranogiad newydd ym mis Tachwedd, gan helpu pobl ifanc anabl i ddweud eu dweud mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Cynhyrchir y poster gan yr Uned Gyfranogiad, wedi ei lleoli yn Achub y Plant, a Gyda'n Gilydd dros Hawliau, grŵp Cymru gyfan o bobl ifanc anabl. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.participationworkerswales.org.uk

DECHRAU FAST AR GYFER YSGOLION CYNRADD CYMRU

Rhiant FAST o Ysgol Pentre-baen

Fis Tachwedd yma, lansiwyd cam nesaf ein rhaglen gyffrous newydd Teuluoedd ac Ysgolion Ynghyd (FAST) i hybu cyfleoedd addysg plant. Mae Achub y Plant yn bwriadu rhoi 400 o'r cynlluniau ar waith ar draws y DU. Mae prosiectau llwyddiannus eisoes wedi cael eu cynnal yng Nghaerdydd a Chaerffili ac yn 2012, byddwn yn lansio yn Rhondda Cynon Taf ac ardaloedd eraill yng Nghymru.

Mae'r rhaglen wyth wythnos yn wirfoddol ac ar gael i bob teulu â phlant ifanc. Mae'n cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau fel canu, darllen a chwarae gemau, coginio pryd i'r teulu ac amser ffocws ar gyfer rhieni. Cynhaliwyd seremonïau graddio ar gyfer yr holl famau a thadau a phlant a gymerodd rhan yn FAST yn Ysgolion Cynradd Pentre-baen a Springwood yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd.

Dywedodd Sheena Duggan, Pennaeth Ysgol Gynradd Pentre-baen "Mae Rhaglen FAST wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn i bawb a gymerodd ran. Mae wedi gwella hyder ein rhieni ac wedi creu perthynas gadarnhaol iawn rhwng yr ysgol a'n teuluoedd."

Ychwanegodd rhiant FAST o Bentre-baen, "Ers dechrau'r prosiect, mae fy merch chwech oed yn llawer mwyn cymdeithasol ac yn rhyngweithio'n llawer gwell gyda phlant eraill ac yn yr ysgol. Mae ganddi fwy o hyder ac rwyf wedi gweld gwelliant yn ei hysgrifennu a'i lleferydd.

DILEU MWG

Gweithiodd plant Ysgol Gynradd Millbank yn Nhrelái, Caerdydd, gydag Achub y Plant i greu animeiddiad rhagorol i annog oedolion i roi'r gorau i smygu o'u cwmpas a chreu mannau di-fwg.

Mae'r animeiddiad '*Gofod Di-fwg*' yn cyfleu'r neges bod smygu yn wael i'ch iechyd, yn effeithio ar iechyd eich plant, yn ddrud ac y gall achosi damweiniau yn y cartref, ac enillodd un o Wobrau Rhagoriaeth mewn Rheoli Tybaco yng Nghymru ASH.

Gweithiodd plant Ysgol Gynradd Millbank

MAE POBL IFANC YN 'AWCHU AM NEWID'

Y Llysgenhadon gyda Martyn Lewis o FirstGroup, James Pritchard, Pennaeth Achub y Plant yng Nghymru a'r Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan

Cynhaliwyd ail gynhadledd tlodi plant Cymru gyfan yng Nghaerdydd gan Achub y Plant a Phlant yng Nghymru. Galwyd y digwyddiad hwn, a noddwyd gan First Group, yn 'Awchu am Newid' ac fe'i gynhaliwyd gan ein Llysgenhadon yng Nghymru. Fe wnaethant siarad am y materion y maent wedi bod yn gweithio arnynt gyda ni gan ychwanegu at y drafodaeth yn galw ar wleidyddion a gwneuthurwyr penderfyniadau yn y gynulleidfa i gadw eu haddewid i ddileu tlodi plant erbyn 2020.

Plant a phobl ifanc o ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghaerdydd yw'r Llysgenhadon. Yn ystod y gynhadledd, amlygwyd y materion sy'n peri pryder iddynt yn cynnwys y cynnydd mewn tlodi bwyd, effaith tlodi ar iechyd pobl ac effaith diweithdra a chyflogau isel yng Nghymru.

Yn ystod y gynhadledd hefyd, cafodd cyfnod nesaf y wefan, Atebion i Dlodi Plant, ei lansio, sy'n cefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt fynd i'r afael â thlodi plant. Roedd y prif siaradwyr yn cynnwys Gwenda Thomas, Dirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru dros Blant a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Athro Syr Mansel Aylward, Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Peter Kenway o'r Sefydliad Polisi Newydd. Cyd-gadeiriwyd y gynhadledd gan Gyn-brif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan a Llysgenhadon Ifanc Achub y Plant, Rhian Fish a Caitlin Sweeny, sydd yn 10 oed.

Ar ddiwedd y dydd, gofynnwyd i'r cynadleddwyr a'r llefarwyr am eu haddewidion ynghylch dileu tlodi plant a bydd y Llysgenhadon yn olrhain eu cynnydd yn y Gwanwyn.

www.childpovertysolutions.org.uk

GWELLA GOFAL PLANT: YN WELL I BLANT, I DEULUOEDD AC I GYMRU

Lansiodd Achub y Plant y DU ymgyrch mawr yn galw am ofal plant mwy hygyrch i deuluoedd yng Nghymru sy'n ei chael hi'n anodd gwneud i waith dalu'r ffordd eleni.

Ein dadl oedd bod gofal plant yn hanfodol ar gyfer pob teulu sy'n gweithio a chan fod gofal plant yma gyda'r drutaf yn y byd, mae'r rhan fwyaf o deuluoedd y DU yn cael anhawster yn cydbwyso costau gofal plant yn erbyn yr hyn y maent yn gallu ei ennill. Dangosodd canlyniadau arolwg a gynhaliwyd yn gynharach eleni fod y costau, i lawer, yn rhoi straen enfawr ar gyllidebau teuluoedd ac i'r rheiny ar incwm isel, gall olygu nad yw gweithio yn opsiwn realistig pan fo gennych blant ifanc. Fe wnaethom ddadlau y dylid gwrthdroi'r newidiadau i'r system fudd-daliadau i leihau maint y cymorth ar gyfer gofal plant.Rydym eisiau i'r Canghellor ddod â chymorth credydau treth ar gyfer gofal plant yn ôl i 80% yn ei Gyllideb ym mis Ebrill 2012. Er mwyn cefnogi rhieni ar incwm isel a chefnogi ein hymgyrch, ewch i www.savethechildren.org.uk/

Cymryd rhan, gwneud gwahaniaeth

Mae gan yr Uned Gyfranogiad, a gynhelir gan Achub y Plant, brosiect newydd yn cefnogi cyfranogiad pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu ac sydd eisoes mewn cysylltiad â thimau troseddwyr ifanc yr awdurdod lleol. Bydd y cynlluniau'n rhoi cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn rhywbeth cadarnhaol, dysgu am y ffordd y maent yn ymgysylltu ag eraill ac yn helpu i ddatblygu hunanhyder a hunan-barch.

Maent yn gweithredu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Torfaen, Merthyr Tudful, Sir Gaerfyrddin, RhCT, Ceredigion, Abertawe, Blaenau Gwent, Caerffili, Conwy a Sir Benfro.

Y cyfeiriad cywir

Cynhaliodd Achub y Plant ymweliad gan ddirprwyaeth o'r Ariannin sydd wedi dewis Cymru ar gyfer cynnal un o gyfres o gyn-gyfarfodydd cyngres y byd ar hawliau'r plentyn yn 2012. Cawsant eu plesio â'u hymweliad â'r Gynhadledd Tlodi Plant lle wnaethant gyfarfod â'r bobl ifanc a'r cyfranogwyr, yn ogystal â chlywed am waith amrywiol rhaglen Cymru.

Siarad allan

Ym mis Hydref, fe wnaethom gynnal digwyddiad i drafod rhagolygon y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar dlodi plant hyd at 2020 gyda gwneuthurwyr penderfyniadau'r Cynulliad ac academyddion. Fe wnaethom hefyd wahodd Rhiannon Lewis, Llysgennad Ifanc Achub y Plant a roddodd gipolwg grymus ar ei phrofiadau fel person ifanc sy'n cael ei magu mewn cymuned ddifreintiedig yng Nghymru.

GWERTHWYD YR ESGIDIAU HYN AR GYFER PLANT

Yn ystod 2011, fe wnaethom ymuno â Merched y Wawr i godi ymwybyddiaeth ac arian ar gyfer gwaith Achub y Plant. Aeth yr aelodau ati i gasglu hen ffonau symudol a chetris inc, y gellid wedyn eu hailgylchu i godi arian i brynu elfennau sylfaenol fel bwyd maethlon, dŵr glân, gofal iechyd, mynediad i addysg ac i ddiogelu plant ar draws y byd. Cafodd yr ymgyrch 'Sodlau'n Siarad' ei lansio ym mis Mai, mewn cydweithrediad â dathliadau pen-blwydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn 150 oed. Gofynnwyd i 150 o fenywod enwog Cymru rannu atgofion o'r Eisteddfod gyda ni a rhoi esgidiau y gallem eu gwerthu mewn ocsiwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Gofynnwyd hefyd i aelodau Merched y Wawr roi esgidiau y gallem eu gwerthu ar ein stondin ar y Maes.

Cefnogwyr Jane Fitz o gangen Caerdydd a John Roberts o siop yr Wyddgrug

Cafodd dros 100 o esgidiau a roddwyd gan fenywod enwog Cymru fel Cerys Matthews, Alex Jones, a'r cyflwynwragedd teledu Angharad Mair a Heledd Cynwal, awduron, artistiaid a gwleidyddion, eu gwerthu mewn ocsiwn a chodwyd £1,300. Cafodd 3000 o esgidiau eu rhoi gan Ferched y Wawr i'w gwerthu ar stondin a oedd yn hynod brysur drwy'r wythnos, wedi ei staffio gan wirfoddolwyr brwdfrydig. Y cyfanswm a godwyd yn ystod y flwyddyn oedd £9,200.

WEDI EU GENI I FOD YN SÊR

Ymddangosodd aelodau'r grŵp dawns Diversity a choreograffydd y sêr, John Graham, yn y Sioe Deithiol 'Born to Shine' yn siop Morrisons ym Mae Caerdydd ym mis Awst.

Cafodd 'Born to Shine' ei ddarlledu ar ITV yn yr haf a dangosodd ieuenctid dawnus yn mentora wynebau cyfarwydd wrth iddynt ddysgu sgil newydd, o ddawnsio tap, i rapio a chwarae offeryn cerdd newydd. Uchafbwynt y gyfres oedd digwyddiad codi arian mawr ar gyfer Achub y Plant. Cefnogodd Morrisons gyfres deledu 'Born to Shine' fel rhan o'u partneriaeth gydag Achub y Plant.

Dywedodd Vaughan Gething, aelod lleol o'r Cynulliad: "Mae pob plentyn yn cael ei eni'n llawn potensial ond yn anffodus nid yw pob plentyn yn cael cyfle i'w gyflawni. Mae'r digwyddiad hwn ac ymgyrch 'Born to Shine' yn dathlu potensial pob plentyn."

NEWYDDION CODI ARIAN

Rwyf i... yn codi arian i Achub y Plant!
Cynhaliwyd y Briodas Frenhinol eleni yn ystod Wythnos Achub y Plant, ac roedd yn gyfle i ni gael hwyl yn dathlu priodas pâr priod mwyaf newydd Gogledd Cymru yn ogystal â chodi arian. Cynhaliwyd partïon stryd a digwyddiadau ar thema priodas ledled Cymru. Anogwyd y cefnogwyr i wneud yr hyn y cawsant 'Eu Geni i'w Wneud' er mwyn codi arian.

Stori Achub ar gyfer menywod Cymru
Mynychodd dros 400 o fenywod y digwyddiad blaenllaw Menywod yng Nghymru ym mis Ebrill, yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Y siaradwr gwadd oedd yr awdur enwog, Clare Mulley, a ysgrifennodd fywgraffiad sylfaenydd Achub y Plant, Eglantyne Jebb.

Byw ar y Don
Heriodd ras rafftio 'Paddle for Life' foroedd cryfion i greu sbloets eto eleni ym Mhorthcawl. Yn y digwyddiad, a drefnwyd gan Lee Garbett o Quest Adventures, brwydrodd y timau yn erbyn amodau anodd iawn i gymryd rhan yn y ras.

Beicio a Mwythau
Cododd beicwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri dros £700 i Achub y Plant trwy gwblhau taith feicio 80 milltir fel rhan o'u dathliadau pen-blwydd yn 60 oed. Cynhaliwyd digwyddiad mwythau llwyddiannus hefyd yn siop Crabtree and Evelyn yng Nghaerdydd ym mis Rhagfyr.

Cân y Nadolig
Aeth gwirfoddolwyr o gangen Caerdydd i ysbryd yr ŵyl trwy drefnu Ffair Nadolig yn ysgol Howells, ac yno bu corau ysgolion yn taro tant mewn cystadleuaeth. Enillodd y côr buddugol o Ysgol Gynradd Cwmbwrla yn Abertawe'r wobr a roddwyd gan Colorfoto. Yna cafwyd perfformiad yn siop John Lewis yng Nghaerdydd.

AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH
AG : walesinfo@savethechildren.org.uk
Ffôn: 02920 396838

Save the Children® Registered charity England and Wales (213890) Scotland (SC039570)

Achub y Plant
Save the Children